Number: WG36284

Llywodraeth Cymru

# Dofen Ganllawiau

## Adran 15 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006

## Canllawiau ar gyfer llenwi ffurflen gais i gofrestru tir yn Faes Tref neu Bentref

OGL © Hawlfraint y Goron

ISBN 978-1-78964-348-0

**DEDDF TIROEDD COMIN 2006 — ADRAN 15**

**Canllawiau ar gyfer llenwi Ffurflen Gais i Gofrestru tir yn Faes Tref neu Bentref**

**Cyflwyniad**

1. Bwriad y canllawiau anstatudol hyn yw eich helpu i lenwi ffurflen i gofrestru tir yng Nghymru yn faes tref neu bentref o dan adran 15(1) neu 15(8) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 ("Deddf 2006").

**2. Mae cofrestru meysydd tref neu bentref yn ddarn cymhleth o gyfraith a gofynnwyd i'r llys ddyfarnu ar y gyfraith sawl gwaith. Rydym yn disgwyl y byddant yn parhau i wneud hynny, nid yw'r canllawiau hyn yn ddiffiniol ac ni ddylid eu hystyried felly. Cynghorir pob ymgeisydd yn gryf i ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol cyn parhau â chais.**

3. Mae'n rhaid cyflwyno'ch cais trwy ddefnyddio ffurflen 44, yn unol â gofynion Rheoliadau Tiroedd Comin (Cofrestru Meysydd Tref neu Bentref) (Trefniadau Interim) (Cymru) 2007 [OS 2396 (Cy198)] a'r rheoliadau sy'n nodi'r wybodaeth sydd ei hangen mewn cais. Mae'n rhaid cyflwyno'ch cais i'r awdurdod cofrestru tir comin ("yr awdurdod cofrestru") ar gyfer eich ardal chi, ac er y bydd yr awdurdod hwnnw yn gallu rhoi cyngor i chi ar lenwi'r ffurflen gais a'r drefn gysylltiedig, ni fydd yn gallu rhoi cyngor i chi ar ansawdd y dystiolaeth neu rinwedd eich cais.

4. Gwnaeth Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ("Deddf 2015") nifer o newidiadau sylweddol i'r gyfraith ynghylch cofrestru meysydd tref a phentref newydd o dan Ddeddf 2006. Diwygiodd Adran 53 o Ddeddf 2015 adran 15C o Ddeddf 2006, er mwyn iddi fod yn berthnasol i Gymru, ac ychwanegodd Atodlen 1B i Ddeddf 2006. Mae'r darpariaethau hyn, a ddaeth i rym ar 22 Hydref 2018 o dan Orchymyn Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol) 2018, yn eithrio'r hawl i wneud cais am gofrestru tir yng Nghymru yn faes tref neu bentref lle mae digwyddiad sbarduno wedi digwydd mewn cysylltiad â'r tir. Bydd yr hawl i wneud cais am gofrestru'r tir yn faes yn parhau i fod wedi'i eithrio oni bai bod digwyddiad terfynu yn digwydd mewn cysylltiad â'r tir. Ceir esboniad o ddigwyddiadau sbarduno a therfynu yn Atodlen 1B i Ddeddf 2006. Nid yw'r newidiadau hyn yn effeithio ar geisiadau o dan Adran 15(1) a anfonir cyn 22 Hydref 2018.

5. Diwygiodd Adran 52 o Ddeddf 2015 adran 15A o Ddeddf 2006, er mwyn iddi fod yn berthnasol i Gymru. Mae hyn, ynghyd ag Adran 15B o Ddeddf 2006, yn cyflwyno dull newydd o gyflwyno "datganiadau perchnogion tir" a'r cofrestrau a gaiff eu defnyddio i gofnodi gwybodaeth sy'n ymwneud â datganiadau o'r fath a'u mapiau cysylltiedig. Daeth y darpariaethau hyn i rym ar 22 Hydref 2018. Os bydd perchennog tir yn cyflwyno datganiad o'r fath i awdurdod cofrestru tir comin, daw unrhyw gyfnod o ddefnydd hamdden "drwy hawl" i ben ar gyfer y tir y mae'r datganiad yn berthnasol iddo. Nid yw cyflwyniad o'r fath yn atal unrhyw gyfnod o ddefnydd "drwy hawl" rhag cael ei gronni yn y dyfodol, fodd bynnag gellir cyflwyno datganiadau perchnogion tir dilynol i rwystro cyfnodau o'r fath yn y dyfodol.

6. Mae Rheoliadau Meysydd Tref a Phentref (Datganiadau Perchnogion Tir) (Cymru) 2018, a ddaeth i rym ar 22 Hydref 2018, yn rhagnodi ffurflen y gall perchnogion tir ei defnyddio i gyflwyno “datganiad perchennog tir” o dan Adran 15A(1) o Ddeddf 2006.

7. Mae copi o’r ddeddfwriaeth a nodir uchod a’r nodiadau esboniadol cysylltiedig ar gael yn www.legislation.gov.uk.

8. Yn y canllawiau hyn rydym yn cyfeirio at wahanol ddarpariaethau sydd wedi’u cynnwys yn Adran 15. Er enghraifft, ystyr Adran 15(1) yw isadran (1) o Adran 15 (h.y. rhan gyntaf Adran 15 a nodir ag (1)).

**Canllawiau Pellach**

9. Mae’r canllawiau hyn yn darparu trosolwg yn unig o’r ddeddfwriaeth a’r gweithdrefnau ar gyfer gwneud cais am gofrestru maes newydd.

10. Mae canllawiau wedi’u cyhoeddi ar Adrannau 15A a 15B (datganiadau perchnogion tir a’u cofrestrau) a 15C ac Atodlen 1B o Ddeddf 2006 (eithrio’r hawl i wneud cais am gofrestru tir yn faes tref neu bentref). Awdurdodau Cofrestru Tiroedd Comin yw’r gynulleidfa darged, nid ymgeiswyr; fodd bynnag, mae’n rhoi esboniad manwl o’r newidiadau deddfwriaethol a sut y maent yn gweithio.

11. Mae’r Gymdeithas Mannau Agored yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol am feysydd tref a phentref, ac mae’n cyhoeddi llawer o gyhoeddiadau defnyddiol ynghylch y pwnc. Gellir cysylltu â’r Gymdeithas yn 25A Bell Street, Henley-on-Thames, Oxon RG9 2BA, ffôn: 01491 573535, www.oss.org.uk.

**Awdurdodau cofrestru**

12. Mae’n rhaid i chi wneud cais i’r awdurdod cofrestru ar gyfer yr ardal o dir yr ydych yn dymuno’i gofrestru yn faes tref neu bentref. Y cyngor sir neu’r cyngor bwrdeistref sirol yw hyn. Os daw’r tir o dan awdurdodaeth mwy nag un awdurdod cofrestru, rydym yn awgrymu eich bod yn gwneud cais i’r awdurdod cofrestru sydd ag awdurdod dros yr ardal lle mae’r mwyafrif o’r tir. Os bydd hynny’n anghywir, bydd yr awdurdod cofrestru yn rhoi gwybod i chi.

13. Yng Nghymru, mae nifer o awdurdodau cofrestru wedi gwneud trefniadau i awdurdod cofrestru cyfagos ymdrin â cheisiadau i gofrestru meysydd yn ei ardal. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd eich awdurdod cofrestru yn trosglwyddo’ch cais i’r awdurdod arall.

**Pwy gaiff wneud cais i gofrestru**

14. Caiff unrhyw un wneud cais i gofrestru tir yn faes sy’n bodloni’r meini prawf yn Adran 15(1) o’r Ddeddf, ar yr amod nad yw’r hawl i wneud cais wedi’i eithrio mewn cysylltiad â’r tir o dan adran 15C(1). Mae’r hawl i wneud cais am gofrestru maes tref neu bentref wedi’i eithrio pan fo digwyddiad sbarduno wedi digwydd o fewn y system

gynllunio sy'n berthnasol i'r tir. Fodd bynnag, nid yw'r eithriad hwn yn berthnasol i gais i gofrestru tir yn faes tref neu bentref a gyflwynir i'r Awdurdod Cofrestru Tiroedd Comin perthnasol cyn 22 Hydref 2018. Rhagnodir y digwyddiadau sbarduno a therfynu yn Atodlen 1B i Ddeddf 2006. Os yw'r hawl i wneud cais gofrestru maes wedi'i eithrio mewn cysylltiad â'r tir yr ydych yn dymuno'i gofrestru, ni all yr awdurdod cofrestru ystyried unrhyw gais i gofrestru'r tir hwnnw oni bai a hyd nes bod digwyddiad terfynu yn digwydd sy'n cyfateb â'r digwyddiad sbarduno mewn cysylltiad â'r tir hwnnw.

15. Mae Atodiad B yn nodi Atodlen 1B i Ddeddf 2006 yn llawn, ac yn disgrifio'r digwyddiadau sbarduno a therfynu perthnasol.

**Nodyn 3. Meini prawf cymhwyso ar gyfer cofrestru (ceisiadau o dan adran 15(1) yn unig)**

16. Mae'n rhaid i'ch cais ddangos bod y defnydd o dir yn bodloni'r meini prawf cofrestru a nodir yn adran 15(2), adran 15(3) neu adran 15(4). Mae'r meini prawf hyn yn ddewisiadau amgen, felly bydd yn rhaid i chi weld pa un (os oes un) sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau penodol chi.

17. P'un a ydych yn gwneud cais o dan adran 15(2), 15(3) neu 15(4), mae'n rhaid i'ch cais ddangos bod nifer sylweddol o bobl leol wedi cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon 'drwy hawl' ar y tir o dan sylw am gyfnod o 20 mlynedd o leiaf. Mae'r gofynion hyn yn adlewyrchu'r hen gyfraith o arfer, pan fyddai patrwm defnyddio o'r fath yn arwain at ragdybiaeth fod y trigolion lleol wedi sefydlu hawliau hamdden ar y tir. Dylech edrych yn ofalus iawn ar y meini prawf ar gyfer cofrestru yn yr Atodiad i'r canllawiau hyn.

<u>Nifer sylweddol o drigolion</u>

18. Mae'r meini prawf yn ei gwneud yn ofynnol i 'nifer sylweddol o'r trigolion' fod wedi cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon ar y tir. Mae'r llys wedi ystyried dehongliad y gofyniad hwn eisoes ac yn achos R v Cyngor Sir Swydd Stafford ex parte Alfred McAlpine Homes Ltd [2002] rhoddodd yr Uchel Lys arweiniad defnyddiol o ran ystyr 'nifer sylweddol'. Nid oedd y llys yn derbyn y byddai 'sylweddol' yn y cyd-destun hwn yn golygu nifer mawr, yn hytrach, y byddai'n rhaid i nifer y bobl sy'n defnyddio'r tir yn ddigon i ddangos bod y tir yn cael ei ddefnyddio'n gyffredinol gan y gymuned leol.

<u>Cyfnod defnyddio</u>

19. Caiff eich cais ei archwilio gan yr awdurdod cofrestru gan ddefnyddio'r meini prawf yn adran 15(2), 15(3) neu 15(4) yn unol â'r hyn yr ydych wedi'i nodi ar y ffurflen.

20. Os byddwch yn gwneud cais o dan adran 15(2) mae'n rhaid i'r tir fod wedi'i ddefnyddio 'drwy hawl' ers 20 mlynedd neu fwy cyn y cais ac mae'n rhaid i'r defnydd fod yn parhau pan fyddwch yn gwneud cais.

21. O dan adran 15(3) mae’n rhaid i chi wneud cais o fewn dwy flynedd i ddefnydd hamdden ‘drwy hawl’ ers 20 mlynedd neu fwy ddod i ben.
22. O dan adran 15(4), fel trefniant dros dro, mae’n rhaid i chi wneud cais o fewn pum mlynedd i ddiwedd defnydd hamdden ‘drwy hawl’, ar yr amod y daeth i ben cyn 6 Medi 2007. Fodd bynnag, yn yr achos hwn yn unig, ceir trefniadau arbennig sy’n berthnasol yn achos caniatâd cynllunio sy’n effeithio ar y tir a ddyfarnwyd cyn 23 Mehefin 2006 a lle gwnaed gwaith adeiladu ar y tir yn sgil hyn (gweler isod).

Cau statudol

23. Wrth benderfynu a fu 20 mlynedd o ddefnydd ‘drwy hawl’ o’r tir, ni ddylech ystyried unrhyw gyfnod o gau statudol ar y tir (h.y. pan fo mynediad at y tir wedi’i wahardd oherwydd cyfyngiadau arbennig dros dro a orfodwyd gan awdurdod lleol neu’r Llywodraeth). Enghraifft o hyn yw pan fo darn o dir wedi’i gau drwy orchymyn yn ystod achos o glwy’r traed a’r genau. Os yw eich cais yn destun unrhyw gyfnod o gau o dan y ddarpariaeth hon, bydd angen i chi nodi’n glir ar y ffurflen gais y cyfnod y dylid ei ddiystyru at y diben hwn.

Caniatâd i ddefnyddio’r tir

24. Mewn rhai achosion gall perchennog tir roi caniatâd i ddefnyddio’i dir ar ôl iddo gael ei ddefnyddio eisoes ‘drwy hawl’ ers 20 mlynedd. Os digwydd hyn, dywed adran 15(7) nad yw rhoi caniatâd yn atal defnydd o’r tir rhag parhau i gael ei ystyried ‘drwy hawl’. Bryd hynny nid oes terfyn amser i allu gwneud cais am gofrestru, oni bai bod y perchennog tir yn cymryd camau pellach i herio defnydd (fel trwy godi ffens o amgylch y tir i atal mynediad).

25. Mewn achosion eraill pan fo defnydd o’r tir ‘drwy hawl’ wedi dod i ben (fel pan fo ffens wedi’i chodi o amgylch y tir, neu pan fo gwaharddeb wedi’i chyflwyno yn erbyn tresmaswyr) mae’n rhaid i chi wneud cais i gofrestru o fewn y terfynau amser a nodir yn adran 15(3) neu adran 15(4), neu ni fydd y tir yn gymwys i’w gofrestru. Rydym yn argymell eich bod yn gwneud cais i gofrestru tir yn faes cyn gynted ag y bo’n rhesymol yn ymarferol bob amser. Os daw’n amlwg yn ystod ymchwiliad yr awdurdod cofrestru i’r cais, fod angen i chi ddibynnu ar wahanol feini prawf cymhwyso, barn Llywodraeth Cymru yw y dylid diwygio’r cais i adlewyrchu’r meini prawf amgen.

## Nodyn 4. Disgrifiadau o dir a chynlluniau

26. Mae’n rhaid i chi gynnwys map a disgrifiad o’r tir a hawlir i’w gofrestru yn faes tref neu bentref gyda’ch cais. (Fel eithriad, os yw eich cais yn ymwneud â darn cyfan o dir sydd eisoes wedi’i gofrestru’n dir comin, nid oes yn rhaid i’ch cais gynnwys map o’r tir, ond mae’n rhaid cynnwys rhif uned y gofrestr). Mae’n rhaid i chi ddefnyddio map Arolwg Ordnans, ar raddfa heb fod yn llai na 1:2,500, ac mae’n rhaid i chi ddangos y tir yr ydych yn dymuno’i gofrestru trwy ddefnyddio lliwiau amlwg yn ddigonol i’r awdurdod cofrestru allu ei nodi (ymyl lliw y tu mewn i ffiniau’r tir yw’r dull gorau o bosibl). Mae’n rhaid hefyd nodi’r map yn arddangosyn i’r datganiad statudol a gaiff ei gyflwyno gyda’r cais (gweler Nodyn 9 isod). Mae rhagor o wybodaeth am

sut i gael mapiau Arolwg Ordnans graddfa fawr ar gael ar y rhyngrwyd yn www.ordnancesurvey.co.uk neu drwy ffonio 03456 050505.

### Nodyn 5. Ardal leol neu gymdogaeth o fewn ardal leol

27. Bydd angen i chi ddarparu datganiad neu fap i nodi'r ardal leol neu'r gymdogaeth o fewn yr ardal leol y mae'r defnydd lleol o'r maes a hawlir yn berthnasol iddo. Yn Nhŷ'r Arglwyddi wrth ddyfarnu ar achos *Cyngor Sir Swydd Rydychen v Cyngor Dinas Rhydychen a Robinson* (achos *Trap Grounds*) mynegodd yr Arglwydd Hoffman farn nad oes yn rhaid i unrhyw ardal leol neu gymdogaeth o fewn ardal leol fod yn gyfan gwbl o fewn un ardal leol a daeth i'r casgliad ei fod yn golygu 'o fewn ardal leol neu ardaloedd lleol'.

28. Weithiau bydd yn anodd i chi ddiffinio'r gymdogaeth neu'r ardal leol yn union a bydd angen i chi ystyried yr holl dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'ch achos yn ofalus iawn. Efallai na fyddwch yn gallu pennu'r gymdogaeth neu'r ardal leol drwy gyfeirio at ardal weinyddol a gydnabyddir, fel cymuned neu ward etholiadol, ac efallai na fydd nodwedd ddaearyddol amlwg, fel pentref hunangynhwysol yn ddaearyddol neu stryd benodol. Os yw hyn yn wir, dylech chi gynnwys, yn hytrach, fap yn dangos y gymdogaeth neu'r ardal leol yn eich tyb chi.

29. Os ydych yn gwneud cais am gofrestru'ch tir yn wirfoddol yn faes, eich cyfrifoldeb chi yw penderfynu sut i ddiffinio'r ardal leol neu'r gymdogaeth.

30. Naill ffordd neu'r llall, ym marn Llywodraeth Cymru ar unrhyw dir a gaiff ei gofrestru yn faes, dim ond y trigolion yn yr ardal leol neu'r gymdogaeth sydd wedi'i diffinio gaiff hawl cyfreithiol i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden ar y maes.

### Nodyn 6. Rhesymau dros y cais a thystiolaeth

31. Os gwneir eich cais o dan adran 15(1) o'r Ddeddf, bydd yn rhaid i chi sicrhau bod yr **holl** dystiolaeth sydd gennych yn cefnogi natur a graddau defnydd y tir 'drwy hawl' ar gael i'r awdurdod cofrestru er mwyn iddo allu ystyried y dystiolaeth honno i weld a yw'r tir yn gymwys i'w gofrestru. Mae'n debygol y bydd datganiadau tystion, tystiolaeth tystion a ffotograffau yn helpu'ch achos. Mae sampl o holiadur tystiolaeth y gellir ei ddefnyddio i gefnogi'ch cais ar gael o'r Gymdeithas Mannau Agored (gweler nodyn 13 isod).

32. Dylech nodi yn eich cais, mewn ffordd mor gryno â phosibl, grynodeb o'r achos dros gofrestru tir, a darparu ar dudalen wahanol, ddatganiad llawnach o'r ffeithiau sy'n cefnogi'r cais - gan gynnwys gwybodaeth am natur y gweithgareddau sydd wedi'u cynnal ar y tir, amcangyfrif o nifer y bobl sydd wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn, a sut y mae'r defnydd hwn wedi bod 'drwy hawl'. Gall yr awdurdod cofrestru ofyn i chi ddarparu rhagor o dystiolaeth i gefnogi'r cais os yw'n ystyried bod hynny'n rhesymol.

33. Cofiwch y gall yr awdurdod cofrestru benderfynu cynnal gwrandawiad neu ymchwiliad i'ch cais. Diben yr ymchwiliad fydd pennu a phrofi'r dystiolaeth o blaid ac yn erbyn cofrestru'r tir. Efallai y bydd yn helpu'ch achos os gall pobl fod yn bresennol yn y gwrandawiad neu'r ymchwiliad i roi tystiolaeth yn bersonol (hyd yn oed os oes tystiolaeth debyg ar gael yn ysgrifenedig). Mae'n bosibl y bydd y person sy'n gyfrifol neu wrthwynebwyr y cais yn holi unrhyw un sy'n mynd i'r gwrandawiad neu'r ymchwiliad ynghylch ei dystiolaeth (croesholi yw'r enw a roddir i hyn).

**Nodyn 7. Cofrestru gwirfoddol (ceisiadau o dan adran 15(8) yn unig)**

34. Os mai chi yw'r perchennog tir gallwch wneud cais o dan adran 15(8) i'w gofrestru'n faes yn wirfoddol. Ni chewch wneud hyn oni bai eich bod wedi cael cydsyniad unrhyw lesddeiliad neu ddeiliad pridiant tir, fel tenant neu forgeisai. Mae'n rhaid i chi ddarparu tystiolaeth bod unrhyw 'lesddeiliad perthnasol' a deiliad 'pridiant perthnasol' ar y tir yn cydsynio i'r cais. Ceir diffiniad o'r termau hyn yn adran 15(9) a (10) o'r Ddeddf (gweler yr Atodiad i'r nodiadau hyn). Mewn achosion o'r fath bydd angen i chi ymgynghori â'r bobl hyn cyn gwneud y cais er mwyn rhoi gwybod iddynt am eich bwriad i wneud cais am gofrestru'n wirfoddol. Bydd angen iddynt lofnodi dogfen a'i rhoi i chi a fydd yn cynnwys eu henw a'u cyfeiriad, datganiad o natur eu buddiant perthnasol yn y tir, a'u cydsyniad ffurfiol i'r cais.

35. Bydd angen i chi gadarnhau yn y datganiad statudol:

- mai chi, yr ymgeisydd, yw perchennog y tir a'ch bod yn gwneud cais am gofrestru'r tir yn faes; a'ch bod

naill ai

- wedi derbyn pob cydsyniad angenrheidiol gan y lesddeiliad perthnasol neu ddeiliad unrhyw bridiant perthnasol ar y tir, ac wedi cynnwys hyn gyda'r datganiad;

neu

- nad oes angen unrhyw gydsyniad o'r fath, pan fo hyn yn wir.

36. Mewn rhai achosion, gall yr awdurdod cofrestru benderfynu gofyn i chi am ragor o dystiolaeth i ddangos mai chi yw perchennog y tir cyn iddo dderbyn eich cais i'w gofrestru yn faes.

**Nodyn 8. Dogfennau ategol**

37. Mae'n rhaid i chi gynnwys gyda'ch cais fersiwn wreiddiol neu (yn ddelfrydol) gopi o bob dogfen sydd gennych neu yr ydych yn ei rheoli a allai fod yn berthnasol i'r cais (hyd yn oed os na fyddai'n helpu'ch cais) neu y gallwch ei gwneud yn ofynnol ei chyflwyno. Ni argymhellir eich bod yn anfon y fersiwn wreiddiol o unrhyw weithred nac unrhyw ddogfen breifat arall, yn hytrach, dylid amgáu copi, wedi'i ardystio yn ddelfrydol â thystysgrif sydd wedi'i llofnodi gan gyfreithiwr i nodi ei fod wedi ei

archwilio a’i gymharu â’r gwreiddiol - yn yr achos hwn, dylech nodi naill ai ar y copi neu ar y ffurflen gais, ym meddiant pwy y mae’r fersiwn wreiddiol a ble y gellir ei archwilio. Os credir bod unrhyw ddogfen gysylltiedig yn bodoli, ond na ellir cyflwyno fersiwn wreiddiol na chopi, dylid nodi hyn yn rhan 12 o’r ffurflen gais a dylech ddisgrifio’r ddogfen sydd ar goll ac esbonio pam na ellir ei chyflwyno. Mae’n bosibl y gofynnir am gyflwyno’r ddogfen wreiddiol mewn unrhyw ymchwiliad neu wrandawiad mewn cysylltiad â’r cais.

**Nodyn 9. Datganiad Statudol**

38. Mae’n rhaid gwneud y datganiad statudol o flaen ynad heddwch, cyfreithiwr sy’n ymarfer, comisiynydd llwon neu notari cyhoeddus. (Mae’n bosibl y bydd yn rhaid i chi dalu ffi ar gyfer y gwasanaeth hwn.) Mae’n rhaid nodi pob map a gaiff ei gyflwyno gyda’r cais ac y cyfeirir ato yn y datganiad statudol, yn arddangosyn, ac mae’n rhaid i’r swyddog sy’n dyst i’r datganiad ei lofnodi (nid yw rhoi llythrennau cyntaf yr enw yn ddigon). Nodir map trwy ysgrifennu symbol nodi fel y llythyren ‘A’ ar y blaen mewn inc. Os oes mwy nag un map, mae’n rhaid defnyddio gwahanol lythyren dynodi ar gyfer pob un. Ar gefn y map mae’n rhaid nodi

*“hwn yw’r arddangosyn a nodir yn ‘A’ ac y cyfeirir ato yn natganiad statudol* (enw’r datganydd) *a wnaed ar* (dyddiad) *o fy mlaen i* (llofnod a chymhwystra)*”*

39. Rydych chi’n gyfrifol am ddweud y gwirionedd wrth gyflwyno’r cais a’r dystiolaeth gysylltiedig, a dylech chi fod yn ymwybodol trwy lofnodi’r datganiad statudol eich bod yn tyngu ei fod yn ddatganiad o wirionedd dan lw neu gadarnhad yn hynny o beth. Mae’n drosedd i ddarparu tystiolaeth gamarweiniol neu anwir yn fwriadol, a gellir eich erlyn os gwnewch chi hynny.

**Nodyn 10. Camau gan yr awdurdod cofrestru wrth benderfynu ar gais**

40. Mae’r nodiadau yn yr adran hon yn rhoi rhywfaint o arweiniad ar yr hyn a fydd yn digwydd i’ch cais ar ôl ei anfon i’r awdurdod cofrestru.

<u>Pan wneir cais o dan adran 15(1)</u>

41. Bydd yr awdurdod cofrestru yn rhoi dyddiad dilys i gyflawni’ch cais pan fyddwch yn ei anfon i’r awdurdod cofrestru. Gall y dyddiad cyflawni fod yn bwysig oherwydd hwn yw’r dyddiad sy’n berthnasol i’r terfynau amser ar gyfer ceisiadau a wneir o dan adran 15(3) a 15(4). Bydd yr awdurdod cofrestru yn cydnabod yn ffurfiol fod eich cais wedi dod i law ac os nad ydych yn cael cydnabyddiaeth o fewn deng niwrnod gwaith, dylech gysylltu â’r awdurdod cofrestru. Weithiau gall yr awdurdod cofrestru benderfynu bod y cais yn anghyflawn neu’n annerbyniol rywsut arall ond y gellid unioni hyn. Os bydd hyn yn digwydd, gall yr awdurdod cofrestru ddychwelyd y cais atoch a’ch galluogi i’w ddiwygio a’i ailgyflwyno â’r newidiadau angenrheidiol.

42. Bydd yr awdurdod cofrestru wedyn yn edrych yn ofalus ar y dystiolaeth yn eich cais. Gall penderfynu na ellir derbyn eich cais (oherwydd bod y dystiolaeth yn amlwg

yn annigonol i gefnogi'r cais) a bydd yn gwrthod eich cais heb gymryd unrhyw gamau pellach.

41. Fel arall, bydd yr awdurdod cofrestru yn cyhoeddi'ch cais (er enghraifft drwy anfon rhybudd o'r cais i'r perchennog tir a chyhoeddi'r rhybudd yn y papur newydd lleol) ac yn ei ystyried eto os daw unrhyw wrthwynebiadau i law. Cewch gopïau o'r holl wrthwynebiadau a gaiff eu hystyried, a chewch gyfle rhesymol i'w hateb. Os byddwch yn gofyn am gael gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'ch cais ar y cam hwn, ac mae'r awdurdod cofrestru yn derbyn y newidiadau, efallai bydd yn rhaid i'r awdurdod gyhoeddi'r achos unwaith eto.

42. Gall yr awdurdod cofrestru benderfynu cynnal ymchwiliad i'r cais. Gall hyn fod ar ffurf gwrandawiad gerbron swyddog yr awdurdod neu awdurdod cyfagos, neu gall yr achos gael ei glywed gerbron pwyllgor yr awdurdod. Fel arall, gellir gofyn i arolygydd annibynnol gynnal ymchwiliad cyhoeddus. Mae gwrandawiad neu ymchwiliad yn arbennig o debygol os yw'r tir yn eiddo i'r awdurdod cofrestru neu awdurdod lleol arall, er mwyn gallu profi'r dystiolaeth yn ddiduedd. Mae Llys Apêl wedi dyfarnu y dylai'r awdurdod cofrestru ystyried cynnal gwrandawiad neu ymchwiliad os bydd anghydfod wrth benderfynu ar geisiadau.

43. Mynegodd yr Arglwydd Hoffman hefyd yn achos *Trap Grounds* nad oes unrhyw ddyletswydd ar awdurdod cofrestru i chwilio am dystiolaeth neu helpu i gyflwyno achos yr ymgeisydd yn y ffordd orau. Mae hawl ganddo ymdrin â'r cais a'r dystiolaeth a gyflwynir gan y partïon. Bydd yr awdurdod cofrestru yn rhoi gwybod i chi a yw'r cais wedi'i dderbyn neu ei wrthod. Os caiff ei dderbyn, caiff y tir ei gofrestru yn faes tref neu bentref a chewch gopi o fanylion y cofrestru. Os caiff ei wrthod, cewch wybod am hyn.

<u>Pan wneir cais o dan adran 15(8)</u>

44. Bydd yr awdurdod cofrestru yn cydnabod yn ffurfiol fod eich cais wedi dod i law. Os na chewch gydnabyddiaeth o fewn deng niwrnod gwaith, dylech chi gysylltu â'r awdurdod cofrestru. Os bydd yr awdurdod cofrestru yn fodlon bod eich cais wedi'i wneud yn briodol, caiff y tir ei gofrestru yn faes tref neu bentref a chewch gopi o fanylion y cofrestriad. Ni ellir gwrthod cais sydd wedi'i wneud yn briodol, ond gellir ei ddychwelyd atoch os ymddengys nad chi yw perchennog y tir, os nad ydych wedi cael y cydsyniad angenrheidiol, neu os yw'r cais yn anghyflawn mewn ffordd arall.

45. Mae adran 24 o'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi camau pellach neu gamau manylach i ymgeiswyr ac awdurdodau cofrestru eu cymryd o ran gwneud a phenderfynu ar geisiadau i gofrestru. Fodd bynnag, ni fydd y rhain yn cael eu cyflwyno tan yn ddiweddarach pan fydd newidiadau eraill i'r system gofrestru ar gyfer tir comin a meysydd yn dod i rym.

## Nodyn 11. Newid cais a chofrestru rhannol

46. Ystyriodd dyfarniad Tŷ'r Arglwyddi yn achos *Trap Grounds* nifer o gwestiynau gweithdrefnol ynghylch cofrestru meysydd. Daeth y Tŷ i'r casgliad y gall awdurdod cofrestru arfer ei ddisgresiwn wrth dderbyn newidiadau i gais neu gofrestru rhan yn

unig o’r darn o dir a hawliwyd os dim ond y rhan honno o’r darn o dir sy’n bodloni’r meini prawf cofrestru.

### Nodyn 12. Ailadrodd ceisiadau a thynnu ceisiadau yn ôl

47. Gallwch benderfynu ailgyflwyno’ch cais i gofrestru os byddwch yn ystyried bod gennych ddigon o dystiolaeth newydd sy’n cefnogi’ch achos neu fod meini prawf cyfreithiol newydd neu gyfraith achos wedi newid y sefyllfa. Yn ein barn ni, mae’n ofynnol i’r awdurdod cofrestru ystyried cais diwygiedig, ond o dan egwyddorion cyfraith gyffredin byddai’n gallu gwrthod ceisiadau olynol ailadroddus drwy grynodeb os cânt eu cyflwyno y tu allan i’r terfynau amser yn adran 15 neu os byddant yn sylweddol debyg i’r ceisiadau blaenorol ac nad ydynt yn codi unrhyw faterion newydd i’w hystyried. Gall awdurdodau cofrestru arfer disgresiwn hefyd wrth ganiatáu i ymgeiswyr dynnu cais yn ôl ac wedyn ailgyflwyno achos wedi’i ddiwygio.

### Nodyn 13. Canllawiau pellach

48. Mae’r Gymdeithas Mannau Agored yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol am feysydd tref a phentref ac mae’n cyhoeddi nifer o gyhoeddiadau defnyddiol ynghylch y pwnc, gan gynnwys *Getting Greens Registered — a guide to the law and procedure for town and village greens*, a *Our Common Land — the law and history of common land and village greens*. Mae’r canllaw ‘*Greens*’ hefyd yn cynnwys holiadur tystiolaeth i’w ddefnyddio i gefnogi cais am gofrestru. Gellir cysylltu â’r Gymdeithas yn 25A Bell Street, Henley-on-Thames, Oxon RG9 2BA, ffôn: 01491 573535, gwefan: www.oss.org.uk.

# Atodiad A

**Canllawiau ar gyfer llenwi Ffurflen Gais i Gofrestru tir yn Faes Tref neu Bentref**

**Deddf Tiroedd Comin 2006 — Testun Adran 15**
**15 Cofrestru meysydd**

(1) Caiff unrhyw un wneud cais i'r awdurdod cofrestru tir comin i gofrestru tir y mae'r Rhan hon yn berthnasol iddo yn faes tref neu bentref pan fo isadran (2), (3) neu (4) yn berthnasol.

(2) Mae'r isadran hon yn berthnasol-

(a) pan fo nifer sylweddol o drigolion o unrhyw ardal leol, neu o unrhyw gymdogaeth o fewn ardal leol, wedi cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithiol 'drwy hawl' ar y tir am gyfnod o 20 mlynedd o leiaf; a
(b) phan fyddant yn parhau i wneud hynny ar adeg y cais.

(3) Mae'r isadran hon yn berthnasol-

(a) pan fo nifer sylweddol o drigolion o unrhyw ardal leol, neu o unrhyw gymdogaeth o fewn ardal leol, wedi cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithiol 'drwy hawl' ar y tir am gyfnod o 20 mlynedd o leiaf;
(b) a'u bod wedi peidio â gwneud hynny cyn y cais ond ar ôl cychwyn yr adran hon; a
(c) gwneir y cais o fewn cyfnod o ddwy flynedd gan ddechrau ar adeg peidio'r gweithgareddau y cyfeiriwyd ati ym mharagraff (b).

(4) Mae'r is-adran hon yn berthnasol (yn amodol ar is-adran (5))—

(a) pan fo nifer sylweddol o drigolion o unrhyw ardal leol, neu o unrhyw gymdogaeth o fewn ardal leol, wedi cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon 'drwy hawl' ar y tir am gyfnod o 20 mlynedd o leiaf;
(b) a'u bod wedi peidio â gwneud hynny cyn cychwyn yr adran hon; a
(c) gwneir y cais o fewn cyfnod o bum mlynedd gan ddechrau ar adeg peidio'r gweithgareddau y cyfeiriwyd ati ym mharagraff (b).

(5) Nid yw is-adran (4) yn berthnasol i unrhyw dir—

(a) y rhoddwyd caniatâd cynllunio mewn cysylltiad ag ef cyn 23 Mehefin 2006;
(b) y dechreuodd gwaith adeiladu cyn y dyddiad hwnnw yn unol â'r caniatâd cynllunio hwnnw ar y tir neu unrhyw dir arall sy'n berthnasol i'r caniatâd a roddwyd; a
(c) thir—

(i) sy'n anaddas i aelodau'r cyhoedd ei ddefnyddio at ddibenion chwaraeon neu weithgareddau hamdden cyfreithlon o ganlyniad i unrhyw waith a wnaed yn unol â'r caniatâd cynllunio hwnnw; neu
(ii) a fydd yn anaddas i aelodau'r cyhoedd ei ddefnyddio at y dibenion hynny o ganlyniad i unrhyw waith y bwriedir ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio hwnnw.

(6) Wrth bennu’r cyfnod o 20 mlynedd y cyfeiriwyd ato yn isadrannau (2)(a), (3)(a) a (4)(a), dylid diystyru unrhyw gyfnod pan fo mynediad i aelodau’r cyhoedd at y tir wedi’i wahardd o ganlyniad i unrhyw ddeddfiad.

(7) At ddibenion is-adran (2)(b) mewn achos pan fodlonir is-adran (2)(a)—

(a) pan fo pobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon drwy hawl yn syth cyn i fynediad at y tir gael ei wahardd fel y nodir yn is-adran (6), dylid ystyried bod y bobl hynny yn parhau i gymryd rhan yn y gweithgareddau hynny; a

(b) phan roddir caniatâd i ddefnyddio’r tir at ddibenion chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon, dylid diystyru’r caniatâd wrth benderfynu a yw’r bobl yn parhau i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon ‘drwy hawl’.

(8) Caiff perchennog unrhyw dir wneud cais i’r awdurdod cofrestru tir comin am gofrestru’r tir yn faes tref neu bentref.

(9) Ni cheir wneud cais o dan is-adran (8) heb gydsyniad unrhyw lesddeiliad perthnasol a deiliad unrhyw bridiant perthnasol ar y tir.

(10) Yn is-adran (9)—

ystyr "pridiant perthnasol" yw—

(a) mewn cysylltiad â thir sydd wedi’i gofrestru yn y gofrestr teitl, pridiant wedi’i gofrestru o fewn yr ystyr a nodir yn Neddf Cofrestru Tir 2002 (c. 9);

(b) mewn cysylltiad â thir nad yw wedi’i gofrestru yn y modd hwn—

(i) pridiant wedi’i gofrestru o dan Ddeddf Pridiannau 1972 (c. 61); neu

(ii) forgais cyfreithiol, o fewn ystyr Deddf Cyfraith Eiddo 1925 (c. 20), nad yw wedi’i gofrestru o dan Ddeddf Pridiannau Tir 1972;

Ystyr “lesddeiliad perthnasol” yw lesddeiliad o dan les am gyfnod o fwy na saith mlynedd o’r dyddiad y dyfarnwyd y les.

## Atodiad B

Digwyddiadau sbarduno a therfynu fel y'i nodir yn Atodlen 1B i Ddeddf 2006.

| *Digwyddiadau Sbarduno* | *Digwyddiadau Terfynu* |
|---|---|
| 1. Caniateir cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu ar y tir o dan Ddeddf 1990, neu rhoddir cyfarwyddyd i ystyried bod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer gwaith datblygu ar y tir o dan adran 90 o'r Ddeddf honno. | (a) Pan fo'r caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amod bod yn rhaid dechrau'r gwaith datblygu y mae'n berthnasol iddo o fewn cyfnod penodol, a bod y cyfnod hwnnw yn dod i ben heb fod y gwaith datblygu'n dechrau.<br><br>(b) Pan ddaw'r cyfnod a nodwyd i gwblhau hysbysiad i ben, mae'r caniatâd cynllunio yn peidio â bod yn weithredol mewn cysylltiad â'r tir drwy adran 95(4) o Ddeddf 1990.<br><br>(c) Mae gorchymyn gan yr awdurdod cynllunio lleol neu Weinidogion Cymru o dan adran 97 o Ddeddf 1990 yn dirymu'r caniatâd cynllunio neu'n ei addasu fel nad yw'n berthnasol i'r tir.<br><br>(d) Caiff y caniatâd cynllunio ei ddileu gan lys. |
| 2. Caiff gorchymyn datblygu lleol sy'n rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu gweithredol ar y tir ei fabwysiadu at ddibenion paragraff 3 o Atodlen 4A o Ddeddf 1990. | (a) Mae'r caniatâd a roddir trwy'r gorchymyn ar gyfer gwaith datblygu gweithredol ar y tir yn peidio â bod yn berthnasol drwy amod neu gyfyngiad a nodir yn y gorchymyn o dan adran 61C(1) o Ddeddf 1990.<br><br>(b) Cyflwynir cyfarwyddyd o dan rymoedd a roddir trwy'r gorchymyn o dan adran 61C(2) o Ddeddf 1990, sy'n golygu nad yw'r caniatâd a roddir gan y gorchymyn yn berthnasol i waith datblygu gweithredol ar y tir.<br><br>(c) Caiff y gorchymyn ei ddiwygio o dan baragraff 2 o Atodlen 4A o Ddeddf 1990 fel nad yw'n rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith datblygu gweithredol ar y tir.<br><br>(d) Caiff y gorchymyn ei ddirymu o dan adran 61A(6) neu 61B(8) o Ddeddf 1990.<br><br>(e) Caiff y gorchymyn ei ddileu gan lys. |
| | |

| | |
|---|---|
| 3. Gwneir gorchymyn yn rhoi caniatâd datblygu i ddatblygu’r tir o dan adran 114 o Ddeddf 2008. | (a) Mae’r gorchymyn sy’n rhoi caniatâd datblygu yn peidio â bod yn weithredol drwy adran 154(2) o Ddeddf 2008.<br><br>(b) Mae gorchymyn a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 2 neu 3 o Atodlen 6 o Ddeddf 2008 yn newid y gorchymyn sy’n rhoi caniatâd datblygu fel nad yw’n berthnasol i’r tir.<br><br>(c) Mae gorchymyn a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 3 o Atodlen 6 o Ddeddf 2008 yn dirymu’r gorchymyn sy’n rhoi caniatâd datblygu.<br><br>(d) Caiff y gorchymyn sy’n rhoi caniatâd datblygu ei ddileu gan lys. |

***Darn o Nodiadau Esboniadol Deddf Tiroedd Comin 2006***
***Adran 15 Cofrestru meysydd***

87. Mae adran 15 yn nodi'r amgylchiadau pan geir cofrestru tir yn faes tref neu bentref newydd. Mae'n deillio o, ond yn amrywio mewn rhai agweddau, ddiffiniad o faes tref neu bentref yn adran 22(1), (1A) ac (1B) o Ddeddf 1965. (Nid oes unrhyw wahaniaethu sylweddol yn y gyfraith rhwng maes 'tref' a 'phentref': y cyfan y mae'r termau hyn yn ei wneud yw adlewyrchu lleoliad ffisegol maes.) Mae *is-adran (1)* yn darparu mewn sefyllfaoedd cymhwysol, y caiff unrhyw un wneud cais i awdurdod cofrestru tir comin am gofrestru tir yn faes. Mae *isadrannau (2)*, *(3)* a *(4)* yn nodi'r tair sefyllfa gymhwysol amgen.

88. Yr achos cyntaf (*is-adran (2)*) yw pan fo nifer sylweddol o drigolion o unrhyw ardal leol, neu o unrhyw gymdogaeth o fewn ardal leol, wedi cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon 'drwy hawl' ar y tir am gyfnod o 20 mlynedd o leiaf, ac yn parhau i wneud hynny ar adeg y cais. Diffiniad 'drwy hawl' yn ôl cyfraith achos yw yn agored, heb rym, a heb ganiatâd. Nid yw'r cyfeiriad at "ardal leol" o reidrwydd gyfystyr ag ardal ddiffiniol at ddibenion gweinyddol, fel plwyf, ac ystyr yr ymadrodd "unrhyw gymdogaeth o fewn ardal leol" i bob pwrpas, yw 'unrhyw gymdogaeth o fewn un neu fwy o ardaloedd gweinyddol'.

89. Yr ail achos (*is-adran (3)*) yw pan fo nifer sylweddol o drigolion o'r fath wedi cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon 'drwy hawl' ar y tir am gyfnod o 20 mlynedd o leiaf, a'u bod wedi peidio â gwneud hynny ar ôl cychwyn adran 15, a gwneir y cais o fewn dwy flynedd i'r peidio hwn.

90. Y trydydd achos (*is-adran (4)*) yw pan fo nifer sylweddol o drigolion o'r fath wedi cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden cyfreithlon 'drwy hawl' ar y tir am gyfnod o 20 mlynedd o leiaf, a'u bod wedi peidio â gwneud hynny cyn cychwyn adran 15, a gwneir y cais o fewn pum mlynedd i'r peidio hwn. Nid yw'r tir y cyfeirir ato yn y trydydd achos hwn (o ganlyniad i *is-adran (5)*) os bodlonir tri amod:

- rhoddwyd caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r tir cyn 23 Mehefin 2006;
- dechreuodd gwaith adeiladu cyn y dyddiad hwnnw yn unol â'r caniatâd ar y tir hwnnw, neu ar unrhyw dir arall sy'n berthnasol i'r caniatâd; a
- o ganlyniad i unrhyw waith a wnaed yn unol â'r caniatâd cynllunio hwnnw, mae'r tir yn anaddas yn barhaol, neu fe fydd yn anaddas yn barhaol, i aelodau'r cyhoedd ei ddefnyddio at ddibenion chwaraeon neu weithgareddau hamdden cyfreithlon.

91. Mae *isadrannau (6) a (7)* yn amlygu sut y bydd *isadrannau (2)* i *(4)* yn gweithio. Mae *is-adran (6)* yn darparu y dylid diystyru unrhyw gyfnod pan fo mynediad i'r tir wedi'i wahardd drwy ddeddfiad wrth gyfrifo'r cyfnod o 20 mlynedd. Mae *is-adran (7)* yn darparu pryd y dylid ystyried bod defnydd yn parhau at ddiben is-adran (2)(b).

92. Mae *is-adran (8)* yn galluogi perchennog unrhyw dir i wneud cais yn wirfoddol i'w gofrestru'n faes, heb orfod dangos y bu 20 mlynedd o ddefnydd cymhwysol gan drigolion lleol cyn hynny. Mae *is-adran (9)* yn ei gwneud yn ofynnol i gais o'r fath gael cydsyniad unrhyw 'lesddeiliad perthnasol' a deiliad unrhyw 'bridiant perthnasol' ar y tir, gan ddiogelu buddiannau'r trydydd partïon hyn yn y tir. Ceir diffiniad o'r ddau derm hyn yn *is-adran (10)*.